**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru - (2) 08-06 – *Cynnydd yn y sector addysg bellach: rheolaeth ystadau a chaffael***

*Yr Ymateb Cyffredinol*

*Mae Llywodraeth y Cynulliad yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Archwilio ac mae'n ei ddosbarthu i Benaethiaid yr holl sefydliadau addysg bellach (AB) yng Nghymru, gan ofyn i bob un ohonynt roi copi i'w Pwyllgor Archwilio ynghyd â datganiad sefyllfa priodol.*

## Argymhellion

***Rheolaeth Ystadau***

**i. Er mwyn sicrhau rheolaeth dda, rhaid cael gwybodaeth dda am reolaeth, a hynny fel sail i wneud penderfyniadau. Gan fod y gronfa ddata sy'n nodi i ba raddau y mae'r ystâd addysg bellach yn cydymffurfio â deddfwriaeth anabledd wedi'i pharatoi yn 2001, rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu archwiliad newydd o fynediad ar gyfer pobl anabl. Bydd canlyniadau'r archwiliad hwnnw yn sail i benderfyniadau gan Lywodraeth y Cynulliad yn y dyfodol ar ddyrannu arian i gynorthwyo'r sector i gydymffurfio â deddfwriaeth anabledd.**

*Yr Ymateb*

*Derbyniwyd. Cafodd £3m ychwanegol ei ddyrannu i sefydliadau AB ym mis Awst 2006 er mwyn datblygu'r gwaith i gwblhau'r rhwymedigaethau sy'n weddill ar anabledd. Bydd y gwaith sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2007. Rhagwelir y bydd gwaith pellach ar gydymffurfiaeth anabledd yn cael ei gynnal gan y sefydliadau drwy gydol y flwyddyn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, mis Gorffennaf a mis Awst 2007. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig comisiynu arolwg newydd ar fynediad i bobl anabl i'w gynnal yn hydref 2007. Rhagwelir y bydd canlyniadau'r arolwg ar gael yn gynnar yn 2008 a byddant yn cael eu rhannu gyda Swyddfa Archwilio Cymru.*

***Caffael***

**ii. Mae'r angen i sicrhau arbedion ariannol drwy wella prosesau caffael wedi bod yn rhan o agenda Llywodraeth y Cynulliad ers sawl blwyddyn ac mae bellach yn rhan allweddol o fenter *Creu'r Cysylltiadau*. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad**

**ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd, er enghraifft yn flynyddol, am yr arbedion y mae'n eu gwneud drwy wella arferion caffael.**

*Yr Ymateb*

*Derbyniwyd. Gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2006, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn datganiadau ysgrifenedig blynyddol oddi wrth yr holl sefydliadau AB ar yr arbedion y maent yn eu sicrhau drwy arferion caffael gwell. Bydd adroddiad cryno ar yr arbedion yn cael ei gyflwyno gerbron Swyddfa Archwilio Cymru.*

**iii. Gall adolygiad allanol helpu i annog sefydliadau i wella. Rydym yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn cynorthwyo Gwerth Cymru a *fforwm* i sicrhau bod Gwiriadau Ffitrwydd Caffael yn cael eu cynnal ym mhob sefydliad addysg bellach.**

*Yr Ymateb*

*Derbyniwyd. Gan weithio ar y cyd gyda Gwerth Cymru a Fforwm, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu rhaglen o Wiriadau Addasrwydd Caffael ar gyfer y sector AB yng Nghymru. Bydd y fenter yn cael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2007 a bydd cynlluniau gweithredu unigol yn cael eu rhoi i bob sefydliad.*